## Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **8 Mai 2002** |
| **Amser:** | **9.00** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgora, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol 3&4** |
| **Teitl:** | **Adroddiad y Cadeirydd** |

**Pwrpas**

1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am amrediad o faterion a gododd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

**Argymhelliad**

2. Y dylai'r aelodau nodi cynnwys yr adroddiad.

**Y Cefndir**

3. Y tro diwethaf i'r Pwyllgor gyfarfod oedd 20 Mawrth 2002. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth ar gysylltiadau rhwng Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol/swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru a sefydliadau Ewropeaidd neu Lywodraethau Cenedlaethol ers y cyfarfod diwethaf.

**Materion Cyffredinol sy'n ymwneud â'r UE**

4. Llwyddodd llywodraeth y DU i gyrraedd targed Barselona ar gyfer gweithredu Cyfarwyddebau'r GE ar y Farchnad Sengl, gan gyrraedd cyfradd o 98.7% yn erbyn targed o 98.5%, sy'n rhoi'r DU yn y trydydd safle o fewn yr UE. Chwaraeodd ymdrechion y Cynulliad Cenedlaethol rôl sylweddol o ran sicrhau bod y DU mewn safle gwell o lawer yn nhabl y gynghrair ar y mater hwn ac rwy'n falch o ddweud bod hyn wedi'i gydnabod ar lefel llywodraeth y DU mewn llythyr at Jack Straw oddi wrth Patricia Hewitt.
5. Mewn ymweliad a drefnwyd gan Swyddfa Gynrychiolaeth y Comisiwn, bydd Mr Jacob Soderman, yr Ombwdsmon Ewropeaidd, yn ymweld â Chaerdydd ar 27-28 Mai i godi proffil ei waith. Yn unol â'i gais, byddaf yn cyfarfod ag ef am 14.00 ddydd Llun 27 Mai ac rwyf am annog aelodau'r Pwyllgor hwn hefyd i achub ar y cyfle i gyfarfod ag ef.
6. **8 – 12 Ebrill.** Roedd cynrychiolwyr o Gyprus a Malta yn bresennol yng Nghynhadledd

Ranbarthol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a gynhaliwyd yn adeilad y Cynulliad Cenedlaethol ym Mae Caerdydd. Fe'i trefnwyd gan Swyddfa'r Llywydd.

7. **Cynhadledd y Rhanbarthau Arfordirol Ymylol.** Yn ddiweddar, ymwelodd swyddog o Adran Materion Ewropeaidd ac Allanol 2 â'r Gynhadledd yn ei phencadlys yn Rennes, Llydaw. Trafodwyd materion amrywiol, yn enwedig mewn perthynas â pholisi ar y cronfeydd strwythurol a chydlyniant, er bod gan y Gynhadledd arbenigedd mewn nifer o feysydd sydd o ddiddordeb i'r Cynulliad – materion trafnidiaeth, cynllunio ac amgylcheddol, er enghraifft. Er bod y Gynhadledd yn anfon copïau atom o'i phapurau safbwynt, dywedwyd wrthi bod lle iddi fod fymryn yn fwy rhagweithiol yn eu strategaeth gyfathrebu, er enghraifft drwy gylchlythyr electronig. Bydd swyddog yn mynd i gyfarfod Gr•p Aelodau'r DU ar Ynys Wyth ar 9-10 Mai; gan mai hwn fydd y tro cyntaf inni gymryd rhan yn y Gr•p, y prif amcan yw darganfod mwy am sut y gallwn fanteisio i'r eithaf ar ein haelodaeth. Mae swyddogion y Gynhadledd yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r rhan y byddwn yn ei chwarae yn rhaglenni INTERREG III B ac C; bydd papur ar hyn yn cael ei drafod yn y cyfarfod heddiw.
8. **Dyfodol Cronfeydd Strwythurol a Chydlyniant.** Cyflwynodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd bapur yng nghyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar 24 Ebrill. Roedd y papur, y gofynnwyd amdano gan aelodau'r Pwyllgor Datblygu Economaidd, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y ddadl, tebyg i'r hyn a gyflwynwyd i aelodau'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ym mis Mawrth, gydag atodiad technegol ar Gynnyrch Mewnwladol Crynswth a baratowyd gan y Gyfarwyddiaeth Ystadegol. Gallwch gael copïau o wefan y Pwyllgor: http://assembly/committees/Economic [cyfeirnod papur: EDC 07-02 (p4)]. Bydd swyddogion yn mynd i weithdy technegol deuddydd ym Mrwsel ar 27-28 Mai, fel rhan o gynrychiolaeth llywodraeth y DU.

**<u>Ymweliadau Gweinidogion</u>**

9. **23-24 Ebrill.** Ymwelodd Ei Ardderchowgrwydd Dr. Alexander Christiani, Llysgennad Awstria, â'r Cynulliad Cenedlaethol er mwyn trafod cyfleoedd i gryfhau cysylltiadau o ran cydweithredu masnachol ac economaidd; trafodwyd hefyd rôl y rhanbarthau yn Ewrop. Cyfarfûm innau a'r Llywydd â'r Llysgennad.

10. **3-5 Ebrill.** Astudiodd cynrychiolwyr o Gynulliad Rhanbarthol Skane, Sweden, raglenni'r Cynulliad Cenedlaethol ar ofal iechyd a datblygu economaidd rhanbarthol. Cyfarfûm innau a Jane Hutt AC â'r cynrychiolwyr. Trefnwyd eu bod yn ymweld ag Ysbyty a Chanolfan Iechyd lleol.

**<u>Gweithgarwch Prif Weinidog Cymru</u>**

11. **22 Ebrill.** Pwyllgor Cadeiryddion Pwyllgorau Materion Ewropeaidd y DU – T•'r Cyffredin
12. **23 Ebrill.** Derbynwest anffurfiol fin nos ar gyfer Llysgennad Awstria, Gwesty Dewi Sant, Bae Caerdydd

    **24 Ebrill.** Cyfarfod â Llysgennad Awstria (Dr Christiani)

13. **25 Ebrill.** Cyfarfod MINECOR yn y Swyddfa Dramor a Chymanwlad Whitehall
14. **26 Ebrill.** Cyfarfod gyda Peter Hain AS i drafod materion Ewropeaidd

**Ehangu: Ymweliadau â'r Cynulliad Cenedlaethol Gan Gynrychiolwyr Gwledydd sydd am Ymuno**

Y Weriniaeth Tsiec

15. Ymwelodd cynrychiolwyr o Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Chyfreithiol Senedd Siambr Dirprwyon y Weriniaeth Tsiec â'r Cynulliad Cenedlaethol ar 21 Mawrth. Roedd y ddirprwyaeth yn cynnwys 4 AS, Cynorthwy-ydd y Pwyllgor, Ysgrifennydd Gwleidyddol y Llysgenhadaeth a chyfieithydd. Trefnwyd yr ymweliad hwn gan Swyddfa'r Llywydd gyda'r bwriad o roi cipolwg iddynt ar ffactorau cyfansoddiadol a chyfreithiol sy'n deillio o Ddatganoli. Mae Swyddfa'r Llywydd wedi cael gwahoddiad i ymweld â'r Weriniaeth Tsiec er mwyn cymharu'r sefyllfa yn y ddwy wlad.

Y Gweriniaethau Tsiec a Slofacaidd

16. I gyd-daro â gêm bêl-droed genedlaethol Cymru yn erbyn y Weriniaeth Tsiec ddydd Mercher 27 Mawrth, trefnwyd gêm bêl-droed gyfeillgar rhwng swyddogion Cynulliad Cymru a Llysgenhadaeth y Weriniaeth Tsiec (a'r Weriniaeth Slofacaidd). Cynhaliwyd y gêm bêl-droed yn y prynhawn ar 27 Mawrth yng Nghlwb Pêl-droed Dinas Caerdydd.
17. Roeddwn i'n bresennol a chychwynnais y gweithgareddau, ar y cyd â'i Ardderchowgrwydd Pavel Seifter, Llysgennad y Weriniaeth Tsiec. Chwaraeodd Ei Ardderchowgrwydd Frantisek Dlhopolcek, Llysgennad y Weriniaeth Slofacaidd, yn y gêm. Roedd y gêm yn llwyddiant ysgubol yn ddiplomataidd ac yn llythrennol gyda thîm y Cynulliad Cenedlaethol yn ennill 9-3.
18. Yn dilyn y gêm, cyfarfu swyddogion MasnachCymru Rhyngwladol â swyddogion CzechTrade er mwyn trafod ymhellach y gwaith o greu cysylltiadau rhwng MasnachCymru Rhyngwladol a CzechTrade. Mae MasnachCymru Rhyngwladol wrthi'n drafftio 'Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth' arfaethedig er mwyn ffurfioli'r gwaith o greu cysylltiadau economaidd sy'n fanteisiol i'r ddwy ochr. Cynigiwyd y dylai Gweinidogion

Datblygu Economaidd y ddwy wlad lofnodi’r Memorandwm.

Gwlad P•yl

19. Ymwelodd Izabela van den Bossche, y Swyddog Gwleidyddol sy’n gyfrifol am Faterion Rhanbarthol, o Lysgenhadaeth Gwlad P•yl yn Warsaw, â Chymru ar 20 Mawrth. Roedd Ms van den Bossche yn awyddus i ddysgu sut mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn gweithredu ac i drafod cysylltiadau tramor, Ehangu’r UE, Datblygu Rhanbarthol a Chronfeydd Strwythurol gyda swyddogion. Yn ystod ei hymweliad â’r Cynulliad Cenedlaethol, cyfarfu â chynrychiolwyr o FasnachCymru Rhyngwladol, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a’r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol.

Estonia

20. Ymwelodd Mr Margus Rava, Cynghorydd Materion Economaidd Llysgenhadaeth Estonia yn Llundain, a Meelis Kuusberg, cynrychiolydd Cronfa Fenter Estonia â Chymru ar 18 Ebrill. Cyn eu hymweliad, roeddent wedi mynegi dymuniad i gysylltu â’r Cynulliad Cenedlaethol er mwyn esbonio am ddatblygiadau yn Estonia a chael cipolwg agosach ar Gymru. Yn ystod eu hymweliad, cyfarfuasant â swyddogion o FasnachCymru Rhyngwladol, yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, y Bwrdd Croeso ac Awdurdod Datblygu Cymru.

Rwmania

21. Ymwelodd cynrychiolydd o Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru â Rwmania gan gymryd rhan mewn rhaglen fer a drefnwyd gan Gydlynydd y DU fel rhan o’r rhaglen Efeillio a ariannwyd gan PHARE. Nod y rhaglen, a gynhaliwyd rhwng 15 a 19 Ebrill, oedd rhoi cyngor i Weinyddiaeth Rwmania dros Ddatblygu a Phrognosis (corff gweithredol y Cyngor Cenedlaethol dros Ddatblygu Rhanbarthol) ar feithrin gallu ar gyfer rheoli rhaglenni’n weithredol a datblygu partneriaethau mewn perthynas ag anghenion y dyfodol o dan Amcan 1 Cronfeydd Strwythurol yr UE.

**Cenadaethau MasnachCymru Rhyngwladol**

22. **10-15 Mawrth.** Cymerodd saith cwmni o Gymru ran mewn Cenhadaeth Fasnach i’r Weriniaeth Tsiec. Roedd y genhadaeth fasnach yn canolbwyntio ar y sector Treftadaeth a gwnaed sawl cysylltiad pwysig gyda’r gymuned fusnes ac â sefydliadau swyddogol ym Mhrâg, Brno ac Olomouc. Cyfarfu Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru â’r cynrychiolwyr mewn derbynwest a gynhaliwyd gan Lysgennad Prydain i’r Weriniaeth Tsiec.
23. **16-18 Ebrill** – Cenhadaeth fasnach ar gyfer un sector benodol i Hanover, yr Almaen. Aeth MasnachCymru Rhyngwladol â gr•p o bedwar cwmni, sydd wedi’u lleoli yng

Nghymru, i Ffair Fasnach Ryngwladol Beirianneg Hanover. Gwnaeth y ffair fasnach hi'n bosibl i'r cwmnïau gyfarfod â'u cwsmeriaid presennol, chwilio am gwsmeriaid newydd, ymchwilio i'r gystadleuaeth a chyfarfod â chyflenwyr mewn un lleoliad.

**Ymweliadau Eraill ag Ewrop**

24. **24-26 Mawrth.** Cynrychiolodd Eleanor Burnham AC, John Griffiths AC, Dai Lloyd AC, David Melding AC a Peter Kellam (Swyddog) y Cynulliad Cenedlaethol pan anfonwyd dirprwyaeth lawn o'r Cynulliad i Gorff Rhyng-Seneddol Prydain-Iwerddon yn Nulyn. Yr Aelodau Llawn newydd a oedd yno am y tro cyntaf oedd Eleanor Burnham a David Melding. Corff rhyng-seneddol meinciau cefn yw'r Corff hwn sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Senedd y DU, y Dail Eirann, Senedd yr Alban, y Cynulliad Cenedlaethol a Chynulliad Gogledd Iwerddon yn ogystal â Chynulliadau Deddfwriaethol Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw. Roedd y Cyfarfod Llawn yn cynnwys dadleuon ar gytundeb Gwener y Groglith; cynnig Iwerddon/yr Alban i groesawu Pencampwriaethau Pêl-droed Ewropeaidd 2008; **a Dyfodol Ewrop**. Anerchodd Gweinidog Materion Tramor Iwerddon y Corff gan ateb cwestiynau.
25. **26 Mawrth.** Aeth Jane Hutt AC i gyfarfod yn y Ffindir i drafod materion iechyd amrywiol. Iechyd y galon oedd y prif bwnc a drafodwyd, ac yn enwedig, lwyddiant y Ffindir i ostwng lefel clefyd y galon a arferai fod yn eithriadol o uchel.
26. ***26-28 Mawrth.*** *Ymwelodd Sue Essex AC â'r Ffindir: 26-28 Mawrth. Mae Helsinki yn cael ei hystyried yn un o ddinasoedd mwyaf cynaliadwy'r byd lle mae'r trigolion yn mwynhau safon byw uchel iawn. Drwy ymweliadau o fewn y ddinas a chyfarfodydd â Gweinyddiaeth Amgylcheddol y Ffindir ac Adran Gynllunio Helsinki, ymchwiliodd y Gweinidog i'r modd y cyflawnwyd hyn ac a all y Cynulliad Cenedlaethol gyflawni rhywbeth tebyg yma drwy integreiddio rhaglenni a pholisïau allweddol*. Ymwelwyd â datblygiadau tai mewn ardaloedd o gwmpas Helsinki, yn benodol raglen dai ecolegol newydd. Hefyd canolfan ynni Helsinki. Bu'r ymweliad yn llwyddiant mawr gan danlinellu'r pwynt bod llawer i'w ddysgu oddi wrth genhedloedd eraill sy'n wynebu sialensau tebyg. Y bwriad yw cynnal (ac adeiladu ymhellach ar) y cysylltiadau â'r Ffindir.

**Cydymffurfio**

27. Mae'r Pwyllgor wedi'i sefydlu dan Reol Sefydlog 15. Mae Adran 33 Deddf Llywodraeth Cymru (sydd wedi'i dirprwyo i Brif Weinidog Cymru) yn golygu y gall y Cynulliad roi ystyriaeth i unrhyw fater sy'n effeithio ar Gymru a gwneud sylwadau priodol arnynt. Ymgynghorwyd â Swyddfa Gydymffurfio'r Cynulliad ac mae'n fodlon â'r agweddau cydymffurfio.

**Goblygiadau Ariannol**

28. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i'r Cynulliad sy'n deillio o'r materion yr

ymdriniwyd â hwy yn yr adroddiad hwn.

Yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol

Mai 2002